CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL 15 MEDI 2009

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng H W Roberts

Cynghorwyr
H Edwards, W R Owen, O T Owen, I C Thomas, A Y Williams, A W Bohana, A Kirk, W Ll Davies , A Roberts

Siaradwr Gwadd – Robert Lewis TCG

Yn dilyn gwahoddiad gan y Cyngor fe gafwyd cyflwyniad gan Robert Gwilym Lewis, Uwch Reolwr Gwaith Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd.
Yr oedd y swyddog yn gyfrifol am y gwasanaeth TTC yng Ngwynedd gan gynnwys monitro'r camerâu oddi fewn yr Ystafell Reoli yng Nghaernarfon.

Cadarnhawyd bod yna ofyn statudol ar awdurdodau lleol, gwasanaeth heddlu, gwasanaethau tan ac achub, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau'r heddlu cyd weithio i leihau trosedd ac anhrefn. Mae'r partneriaethau statudol yma yn cael eu hadnabod fel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd.

Sefydlwyd y Bartneriaeth yn 1998 gyda chyfrifoldeb am

- Trosedd ac anhrefn
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad sydd yn effeithio'r amgylchedd er gwaethaf
- Camddefnyddio sylweddau
- Ymrwymiad / sicrwydd cymunedol
- Cynhyrchiad cynllun tair blynedd roliedig

Mae gan Cyngor Gwynedd Reolwr arbennig ar y gwasanaeth TCC.

Mae canolfan y gweithredu 24/7 ers dechrau'r haf ac mae'n monitro'r camerâu yng Nghaernarfon, Bangor a Pwllheli yn ogystal â thiroedd eraill y cyngor.

Mae yna brotocol pendant ar gyfer defnydd o'r TCC ac mae angen trwydded arbennig ar staff y ganolfan ar gyfer gweithio gyda'r camerâu.

Yn ogystal mae yna Côd Ymarfer sydd wedi ei gyhoeddi gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae gan Gaernarfon oddeutu 64 camera.

Mae oll o'r digwyddiadau yn cael eu monitro a'u logio ac mae rhestr yn cael eu paratoi ar gyfer y bartneriaeth er mwyn iddynt allu monitro rhai o'u swyddogaethau.

Aethpwyd ati i roi esiamplau o'r digwyddiadau hyn.

Derbyniwyd amryw o gwestiynau cyffredinol ynglyn â'r gwasanaeth.

Cyflwynwyd diolchiadau oddi wrth Y Maer am yr adroddiad.

1. Ymddiheuriadau

G Parry, W T Owen (gweithio), M P Jones, R Anderson (salwch) M Davies (gwyliau)

2. Datgan Buddiant Personol

H Edwards, W R Owen a I C Thomas – cynllunio
I C Thomas – TCG (siaradwr gwadd)

3. Eitemau brys

Llythyr parthed Clwb Rygbi

4.Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau
Penderfynwyd
Anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod priodol

5. Cyfrifon

I gymeradwyo biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

6. Swyddfa Archwilio Cymru

Dogfennau ar y bwrdd:-

i. Y Gyfnewidfa Arfer Da
ii. Cynghorau Cymuned – Adroddiad Llywodraeth Da – Arfer Da
iii. Y Senedd

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

7. Llywodraeth Cynulliad Cymru

Adroddiad blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2008 – 09

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

8. Vaughtons

Pris am dariannau newydd
Penderfynwyd
Prynu gan y cwmni yma yn y dyfodol

9. Comisiwn Ffiniau

Llywodraeth leol i Gymru

Gweithdy – Wrecsam 7 Hydref

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

10. Unllais

i. Cynigion i'w trafod yn y Cyfarfod Blynyddol
ii. Calendr rhaglen hyfforddiant
iii. Crynodeb o'r LCO
iv. Adroddiad Cyng. A. Bohana (o'r Cyngor)

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

11. Llywodraeth Cynulliad Cymru

Amgueddfeydd Archifau a Llywodraeth Cymru
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

12. Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymgynghoriad ar Gorchymyn Cynhwysedd Deddfwriaeth
Penderfynwyd
Derbyn a chefnogi sylwadau Unllais

13. CADW

Glannau Caernarfon

Penderfynwyd
Diolch i Cadw a gofyn i'r ddogfen gael ei hystyried yn sail i unrhyw gais cynllunio ar gyfer datblygu y glannau yn y dyfodol

14. Cadw Cymru'n Daclus

Penderfynu am leoliad - un yn pob ward
Penderfynwyd
Ward Menai – nos Fercher 30 Medi – Twthill
Hendre a Peblig wedi gwneud rhai eu hunain

15. Toiledau Llanbeblig
Penderfynwyd
Derbyn mewn egwyddor & symud i'r gweithgor i gael ffigurau llawn

16.Cwestiynau
Ydi'n bosibl cael Pwyllgor Cynllunio?
Angen rhybudd o gynnig gan bod angen trafodaeth

17. Llythyr Clwb Rygbi
Rhybuddiwyd pawb am dderbyn lletygarwch a nodwyd ella mai haws fydda i'r Maer yn unig fynychu

Gorffennodd y Cyfarfod am 7.40

Arwyddwyd..... Dyddiad.....